# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2021

Amser: 09.02 - 09.49

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaethlisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd egwyl cyn y bleidlais gyntaf yn nhrafodion Cyfnod 3, ac fel o'r blaen bydd PIN gwahanol ar gyfer y Cyfnod Pleidleisio ac ar gyfer Cyfnod 3.

**Dydd Mawrth**

- Bydd y Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn Cyfnod 3 y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.45pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 9 Mawrth 2021 –**

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021 (15 munud)

**Dydd Mawrth 16 Mawrth 2021 –**

- Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 17 Mawrth 2021 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: A ddylid datganoli darlledu? (30 munud) –~~ *gohiriwyd tan 24 Mawrth*

**Dydd Mercher 24 Mawrth 2021 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Archwilio datganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)

### 3.4 Dethol Dadleuon Aelodau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 10 Mawrth:

**NNDM7552 Jenny Rathbone**

**Dai Lloyd**

**Jack Sargeant**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) mai Cymru yw'r lle gyda'r cyfraddau uchaf o ddiabetes math 2 o unrhyw le yng ngorllewin Ewrop, lle mae dros 200,000 wedi cael diagnosis, lle yr amgcangyfrifir bod 65,000 gyda math 2 heb ddiagnosis, a lle mae 500,000 arall mewn perygl o gontractio diabetes;

b) bod gofalu am bobl â diabetes eisoes yn defnyddio 10 y cant o gyllideb y GIG;

c) y risgiau cynyddol o ddal COVID-19 ar gyfer dinasyddion sydd â diabetes fel cyflwr sy'n bodoli eisoes; a

d) llwyddiant a chost-effeithiolrwydd y rhaglen Sgiliau Maeth am Oes, sydd wedi ennill sawl gwobr, a dreialwyd yng Nghwm Afan.

2. Yn annog Llywodraeth Cymru i brif ffrydio'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes ledled Cymru fel elfen ganolog o gynllun atal diabetes i Gymru.

**Cefnogwyr:**

**Helen Mary Jones**

**Darren Millar**

**Andrew RT Davies**

**Jayne Bryant**

**3.5 Cais i drefnu dadl ar NNDM7584**

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes beidio ag amserlennu'r cynnig i'w drafod.

## 4 Busnes y Senedd

### 4.1 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) - Effaith ar Fusnes y Senedd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes:

- mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'r Senedd yn cael ei hadalw am faterion nad ydynt yn gysylltiedig â'r Bil;
- y dylai holl fusnes pwyllgorau'r Senedd ddod i ben yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad;
- y dyddiadau cau ar gyfer gosod dogfennau, derbyn Cwestiynau Ysgrifenedig ac eitemau eraill o fusnes a gyflwynwyd, ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw adalw'r Senedd;
- y gall y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gwrdd yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad er mwyn ystyried rheoliadau sy'n ymwneud â Coronafeirws (os ydynt yn ddarostyngedig i adalw'r Senedd) neu ohirio etholiadau 2021 yn unig; ac
- y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y Senedd yn ystod unrhyw wythnosau ychwanegol o'r Pumed Senedd yn dilyn unrhyw benderfyniad i ohirio'r etholiad.

Nododd y Pwyllgor hefyd:

- y broses ar gyfer gohirio'r etholiad;
- mai'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Buddiannau yw 6.00pm dydd Mercher 28 Ebrill;
- bwriad y Llywydd i gau'r system ddeisebau yn ystod y cyfnod cyn y diddymiad, (yn ogystal ag yn ystod y diddymiad);
- bwriad y Llywydd i gyfyngu ar weithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol ar ôl 7 Ebrill, y dyddiad cau o 6.00pm dydd Mercher 28 Ebrill ar gyfer cyflwyno dogfennaeth yn ymwneud â gweithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol, ac y bydd yr holl Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu dadgofrestru'n awtomatig ar ddechrau'r diddymiad (hanner nos ar 29 Ebrill).

# 5 Deddfwriaeth

## 5.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 8 Mawrth fel dyddiad cau i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

# 6 Pwyllgorau

## 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i’r pwyllgor gwrdd y tu allan i'r slot a drefnwyd iddo am y tair wythnos nesaf, os oes angen.

# 7 Adroddiadau Rheolau Sefydlog Drafft

## 7.1 Busnes Cynnar yn dilyn etholiad Senedd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Mawrth.

## 7.2 Sub Judice

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Mawrth.

## 7.3 Biliau Cydgrynhoi

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i’w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Mawrth.

### 7.4 Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad drafft ac i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 24 Mawrth.

## 8 Y Rheolau Sefydlog

### 8.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr adroddiad drafft a chytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau cyn dychwelyd at y mater yn y cyfarfod nesaf.